# Adroddiad Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru

Ebrill 2023 – Mawrth 2024

# Cynnwys

Cyflwyniad ........ 3

Sefydlu'r Panel ........ 4

Cylch Gwaith y Panel ........ 4

Aelodaeth ........ 4

Cefnogi Gweithrediad y Panel ........ 5

Crynodeb o Faterion sy'n Effeithio ar Amaethyddiaeth (2023/2024) ........ 7

Gweithrediad y Panel ........ 9

Cyfarfodydd y Panel ........ 9

Dichonoldeb y Cyflog Byw Gwirioneddol i Weithwyr Amaethyddol yng Nghymru .. 12

Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2024 ........ 13

Gorfodi Gorchmynion Cyflogau Amaethyddol ........ 14

Yr Is-bwyllgor Datblygu Sgiliau a Hyfforddiant ........ 15

Atodiad 1 ........ 17

Dolenni i Ddeddfwriaeth ........ 17

## Cyflwyniad



Mae Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru yn gorff annibynnol sy'n cynghori Gweinidogion Cymru ar drefniadau'r Isafswm Cyflog Amaethyddol a thelerau ac amodau cyflogaeth ar gyfer gweithwyr amaethyddol, garddwriaethol a choedwigaeth yng Nghymru. Yn ogystal, mae'r Panel yn hyrwyddo cyfleoedd gyrfa yn y meysydd hyn, yn cefnogi datblygiad gweithlu â sgiliau addas ac yn cynnig cyngor ychwanegol i Weinidogion yn ôl yr angen.

Mae’r cyfraddau tâl a lwfansau isaf a thelerau ac amodau gofynnol eraill y mae gan weithwyr amaethyddol, gan gynnwys y rhai sy’n gweithio yn y sectorau garddwriaeth a choedwigaeth, hawl iddynt yn ôl y gyfraith wedi’u nodi yng Ngorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru).

Bob blwyddyn, mae'r Panel yn adolygu trefniadau’r Isafswm Cyflog Amaethyddol a darpariaethau eraill y Gorchymyn. Mae’n cynnig newidiadau ac yn ymgynghori ar y cynigion hyn cyn eu cyflwyno ar ffurf ddrafft i Weinidogion Cymru eu hystyried.

Wrth wneud ei benderfyniadau, mae'r Panel yn dibynnu ar ei arbenigedd ac yn ystyried yr amodau economaidd yn y diwydiant ar y pryd, yn ogystal ag unrhyw ofynion cyfreithiol perthnasol, gan gynnwys yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol. Mae hyn yn sicrhau bod gweithwyr amaethyddol yn cael cyflog a lwfansau teg a asesir yn rheolaidd, yn ogystal â thelerau cyflogaeth priodol, ac yn cefnogi agenda trechu tlodi Llywodraeth Cymru drwy ddiogelu incwm aelwydydd, yn enwedig mewn cymunedau gwledig.

Ar ôl ei gymeradwyo gan y Senedd, mae gan y Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol awdurdod cyfreithiol yng Nghymru.

Dyma'r pumed Adroddiad ar gynnydd a gweithrediad Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024.

Mae canllawiau ar gyfer cyflogwyr a gweithwyr, manylion y lefelau tâl a lwfans presennol a'r telerau ac amodau gofynnol ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru:
https://www.llyw.cymru/panel-cynghori-amaethyddiaeth-cymru/y-ddeddfwriaeth-ar-canllawiau

## Sefydlu'r Panel

Sefydlwyd y Panel ar 1 Ebrill 2016 o dan adran 2(1) o Ddeddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") a chan Orchymyn Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru (Sefydlu) 2016 ("y Gorchymyn Sefydlu”). Mae dolenni i'r ddeddfwriaeth yn Atodiad 1.

## Cylch Gwaith y Panel

Yn unol ag adran 2(2) o Ddeddf 2014, mae swyddogaethau'r Panel fel a ganlyn:

a) hybu gyrfaoedd mewn amaethyddiaeth;
b) llunio gorchmynion cyflogau amaethyddol ar ffurf ddrafft, ymgynghori ar y gorchmynion hynny a'u cyflwyno i Weinidogion Cymru i'w cymeradwyo;
c) cynghori Gweinidogion Cymru ar unrhyw faterion eraill sy'n ymwneud â'r sector amaethyddol yng Nghymru sy’n ofynnol gan Weinidogion Cymru;
d) unrhyw swyddogaethau eraill a bennir gan Weinidogion Cymru yn y gorchymyn.

Yn unol â'r Gorchymyn Sefydlu, mae gan y Panel y cyfrifoldeb i:

- bennu ei weithdrefnau ei hun a gweithdrefnau ei is-bwyllgorau;
- sefydlu is-bwyllgorau eraill, yn ogystal â'r Is-bwyllgor Datblygu Sgiliau a Hyfforddiant, fel y bo'n briodol; a
- chael cyngor arbenigol fel yr ystyrir yn angenrheidiol.

Mae talu cyfraddau tâl isaf a thâl gwyliau yn orfodadwy yn gyfreithiol gan Lywodraeth Cymru, sydd â dyletswydd hefyd i ymchwilio i gwynion a godir am ddiffyg cydymffurfiaeth â'r darpariaethau hyn.

Mae'r Cylch Gorchwyl ar gyfer Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru ar gael yn:
https://www.llyw.cymru/panel-cynghori-amaethyddiaeth-cymru/cylch-gorchwyl

## Aelodaeth

Mae adran 2(4) o Ddeddf 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i aelodau'r Panel:

a) gynnwys pobl sydd â'r sgiliau a'r arbenigedd sy'n angenrheidiol er mwyn galluogi'r Panel i gyflawni ei swyddogaethau'n effeithlon ac yn effeithiol, ac
b) adlewyrchu buddiannau pob rhan o'r sector amaethyddol yn ddigonol.

Mae’r Panel yn cynnwys 7 aelod:

- Cadeirydd annibynnol;
- dau aelod annibynnol sydd ag arbenigedd perthnasol;
- dau gynrychiolydd o'r undeb UNITE;
- un cynrychiolydd o Undeb Amaethwyr Cymru (FUW); ac
- un cynrychiolydd o Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU Cymru).

Cafodd yr aelodau annibynnol eu dewis drwy'r broses Penodiadau Cyhoeddus a'u penodi gan Weinidogion Cymru. Mae eu rôl yn cynnwys cyfrannu eu safbwyntiau arbenigol at drafodaethau ar faterion allweddol a chynghori ar y cyfleoedd a'r heriau sy'n wynebu'r diwydiant.

Mae aelodau cynrychiadol yn cael eu henwebu gan eu priod sefydliadau a'u rôl yw defnyddio eu harbenigedd wrth gynrychioli buddiannau eu haelodau ar y materion allweddol yn nhrafodaethau'r Panel a chynghori ar y cyfleoedd a'r heriau sy'n wynebu'r diwydiant. Mae gan NFU Cymru, FUW ac UNITE gynrychiolaeth warantedig ar y Panel er mwyn sicrhau cydbwysedd buddiannau.

Mae gan holl aelodau'r Panel gyfrifoldeb allweddol i sicrhau bod Gorchmynion drafft teg a rhesymol yn cael eu cyflwyno ar faterion sy'n ymwneud â lefelau cyflog isaf a thelerau ac amodau perthnasol ar gyfer gweithwyr amaethyddol yng Nghymru.

Cyfnod aelodau annibynnol a chynrychiadol yn y swydd yw pedair blynedd, gyda'r posibilrwydd o gael eu hailbenodi am hyd at uchafswm o wyth mlynedd.

Mae aelodaeth y Panel ar gyfer y cyfnod a drafodir yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

| Enw | Swydd / Sefydliad |
|---|---|
| Dr Nerys Llewelyn Jones | Cadeirydd Annibynnol |
| Janatha Stout | Aelod Annibynnol (Addysg) |
| Stephen Hughson | Aelod Annibynnol (Amaethyddiaeth) |
| Joanne Galazka | Undeb Unite |
| Ivan Monckton | Undeb Unite |
| Darren Williams | Undeb Amaethwyr Cymru (FUW) |
| Simon Davies | Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru (NFU Cymru) |

## Cefnogi Gweithrediad y Panel

Mae is-adran nawdd Llywodraeth Cymru yn darparu'r ysgrifenyddiaeth ar gyfer y Panel, sy'n cyfateb i 0.8 aelod o staff llawn amser ym Mand Rheoli Tri. Mae'r ysgrifenyddiaeth yn hwyluso cyfarfodydd, yn paratoi papurau, yn cymryd cofnodion cyfarfodydd ac yn cyflawni tasgau eraill fel sy'n ofynnol gan y Panel. Mae swyddogion polisi Llywodraeth Cymru yn mynd i holl gyfarfodydd y Panel hefyd.

Yn ogystal, mae cwmni cyfreithiol allanol yn drafftio'r Gorchymyn Cyflogau ac yn cynghori'r Panel ar unrhyw faterion cyfreithiol cysylltiedig eraill.

Mae platfform ar-lein y Panel yn cael ei gynnal gan Lywodraeth Cymru a'i reoli gan ysgrifenyddiaeth y Panel: https://www.llyw.cymru/y-panel-cynghori-ar-amaethyddiaeth-cymru

Nid oes gan y Panel ei gyllideb ei hun ond gall ddefnyddio cronfeydd a ddyrennir gan Lywodraeth Cymru, gyda chymeradwyaeth Gweinidogion Cymru. Mae hyn yn cynnwys cyllid cyfyngedig i gomisiynu astudiaethau ac ymchwil ar feysydd penodol i lywio ei benderfyniadau. Mae'r tabl canlynol yn dangos gwariant y gyllideb ar dreuliau gweithredol y Panel dros y 12 mis dan sylw yn yr adroddiad hwn.

| Maes Pwnc | Swm |
|---|---|
| Cymorth Cyfreithiol | £15,662 |
| Ffioedd Presenoldeb a Threuliau Teithio i Aelodau'r Panel | £6,340 |
| Llogi Ystafell ac Arlwyo | £1,980 |
| Costau Hysbysebu ar gyfer Aelod Annibynnol o'r Panel* | £7,974 |
| CYFANSWM | £31,956 |

* Gan fod un o'r aelodau annibynnol wedi cyrraedd ei derfyn o 8 mlynedd yn y swydd, cynhaliwyd ymarfer recriwtio Penodiadau Cyhoeddus am aelod annibynnol newydd i ymuno â'r Panel o fis Ebrill 2024 ymlaen

## Crynodeb o Faterion sy'n Effeithio ar Amaethyddiaeth (2023/2024)



Mae ymosodiad Rwsia ar Wcráin yn parhau i gael effaith uniongyrchol ar argaeledd a phrisiau bwyd a bwyd anifeiliaid ledled y byd - boed hynny fel effaith uniongyrchol neu oherwydd sancsiynau - ac mae'r DU yn agored i natur anwadal prisiau a achosir gan brinderau byd-eang. Er enghraifft, yn 2019, roedd tua 10% o allforion gwenith y byd yn dod o Wcráin, a thua 15% yn dod o Rwsia; roedd tua 16% o allforion indrawn y byd yn dod o Wcráin; roedd 19% o allforion haidd y byd yn dod o Rwsia a Wcráin; ac roedd tua 42% o allforion olew blodau haul y byd yn dod o Wcráin, a thua 21% yn dod o Rwsia.

Mae'r gwrthdaro hefyd wedi cael effaith sylweddol ar brisiau mewnbynnau gan gynnwys ynni a gwrtaith, a gariwyd drosodd gan gynhyrchwyr i 2023. Sefydlogodd prisiau allbynnau ar gyfer grawnfwydydd a llaeth ar ôl cyrraedd uchafbwynt yn 2022, gan ddychwelyd i lefelau cyn y rhyfel, tra bod prisiau da byw wedi cynyddu drwy 2023 wrth i gostau bwydydd grawn leihau[1].

Mae TB buchol yn parhau i gael effaith economaidd a seicolegol fawr ar gymunedau ffermio Cymru, gyda thros 11,000 o anifeiliaid yn cael eu lladd ar gyfer rheoli TB yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2024 - cynnydd o 16.8% ers y flwyddyn flaenorol[2]. Yn y 12 mis hyd at fis Rhagfyr 2023, cynyddodd nifer yr achosion newydd o TB ledled Cymru i 618, i fyny o 601 yn y flwyddyn flaenorol, sy'n gynnydd o 2.8%.

Daeth Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 i rym ar 1 Ebrill 2021 gyda chyfnodau pontio ar gyfer gweithredu rhai gofynion o dan y Rheoliadau. Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) 2021 Llywodraeth Cymru yn nodi y bydd y rheoliadau'n costio cymaint â £360 miliwn i ffermwyr Cymru mewn costau seilwaith yn unig - gyda chostau cydymffurfio ac effaith blynyddol yn ychwanegol at y ffigur hwn. Mae hyn yn cyfateb i gostau seilwaith cyfartalog fesul daliad yng Nghymru o tua £14,500, sy'n codi i gyfartaledd o ryw £25,000 pan mai dim ond y ffermydd (gwartheg) hynny sy'n fwyaf tebygol o gael eu heffeithio'n ddifrifol sy'n cael eu hystyried[3].

---

[1] "Agriculture in the United Kingdom 2023" https://assets.publishing.service.gov.uk/media/66670481d399bad66e5f63b6/auk-2023-06jun24i.pdf

[2] "Nifer yr achosion o dwbercwlosis (TB) mewn gwartheg ym Mhrydain Fawr: Mawrth 2024" https://www.llyw.cymru/nifer-yr-achosion-o-dwbercwlosis-tb-mewn-gwartheg-ym-mhrydain-fawr-mawrth-2024

[3] "Asesiad Effaith Rheoleiddiol – Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru)" https://busnes.senedd.cymru/documents/s112177/ME%20SL5735%20-%20Rheoliadau%20Adnoddau%20Dwr%20Rheoli%20Llygredd%20Amaethyddol%20Cymru%202021.pdf

Mae ansicrwydd ynghylch cynlluniau Llywodraeth Cymru i gyflwyno ei Gynllun Ffermio Cynaliadwy (CFfC) o 2026 gyda chwestiynau ynghylch ymarferoldeb rhai o'r cynigion, yr amodau sy'n gysylltiedig â'r cynllun a chyfraddau talu anhysbys sy'n gwneud cynllunio busnes ac amcanestyniadau llif arian yn heriol. Mae pryderon hefyd y byddai'r cynigion yn arwain at 5000 o swyddi'n cael eu colli yn y sector yn ôl yr Asesiad Effaith Economaidd a gynhaliwyd ar gynigion y CFfC.[4] Mae eglurder mewn perthynas ag effaith cynigion y Cynllun Ffermio Cynaliadwy diwygiedig ar gyflogaeth amaethyddol yn hollbwysig wrth symud ymlaen.

Mae ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd yn parhau i achosi ansicrwydd i'r sector amaethyddol, gan gynnwys newidiadau mewn cytundebau masnach a rheoliadau.

Mae'r sector amaethyddol yn agored i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. Mae tymheredd cynyddol, patrymau glawiad sy'n newid ac amlder cynyddol digwyddiadau tywydd eithafol (megis sychder neu lifogydd) i gyd yn amharu ar gynhyrchu cnydau, yn effeithio ar dda byw ac ar gymunedau gwledig.

Mae datblygiadau mewn technoleg megis amaethyddiaeth fanwl ac awtomeiddio, er bod y potensial ganddynt i wella cynhyrchiant ac effeithlonrwydd, yn gofyn am fuddsoddiad a hyfforddiant sylweddol.

[4] "Effeithiau economaidd posibl y Cynllun Ffermio Cynaliadwy" https://www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2023-12/effeithiau-economaidd-posibl-y-cynllun-canlyniadau-modelu-gweithredoedd-sylfaenol-y-cynllun-ffermio-cynaliadwy-cam-4.pdf

## Gweithrediad y Panel



Mae Gorchymyn Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru (Sefydlu) 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Panel gyfarfod o leiaf deirgwaith y flwyddyn. Cyfarfu'r Panel chwe gwaith yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24. Roedd dau o'r cyfarfodydd "yn y cnawd" a phedwar ar-lein drwy Microsoft Teams.

## Cyfarfodydd y Panel

Mae cofnodion y cyfarfodydd i'w gweld ar dudalennau gwe y Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth ar wefan Llywodraeth Cymru: https://www.llyw.cymru/cyfarfodydd-y-panel-cynghori-ar-amaethyddiaeth-cymru

### Cyfarfod Rhif 41 (12 Mai 2023)

https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-panel-cynghori-ar-amaethyddiaeth-12-mai-2023

Pynciau trafod:

- Addasiadau arfaethedig i isafswm cyfradd taliadau goramser yng Ngorchymyn 2024.
- Cyhoeddi Gorchymyn 2023.
- Cyflwyno adroddiad gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch Gorchymyn 2023, gan gynnwys yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.
- Adolygiad o bapur cwmpasu ar gyfer yr Astudiaeth o Ddichonoldeb y Cyflog Byw Gwirioneddol, ynghyd â gohebiaeth gan y Gweinidog ar y mater hwn.
- Ad-daliadau Benthyciadau Myfyrwyr gweithwyr amaethyddol.

### Cyfarfod Rhif 42 (27 Mehefin 2023)

https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-panel-cynghori-ar-amaethyddiaeth-27-mehefin-2023

Pynciau trafod:

- Newidiadau i dudalennau gwe'r Panel ar wefan Llywodraeth Cymru i wella hygyrchedd.
  - Cyfarfod y Cadeirydd â Cynnal Cymru ynghylch y Cyflog Byw Gwirioneddol a chyfleoedd ymgysylltu yn y dyfodol i'r Panel.
  - Diweddariad ar fanyleb yr Astudiaeth o Ddichonoldeb y Cyflog Byw Gwirioneddol a'r Adolygiad arfaethedig o'r Panel.

- Crynodeb o gyfarfod diweddaraf is-bwyllgor y Panel ar Sgiliau, Datblygu a Hyfforddiant a gynhaliwyd ar 6 Mehefin 2023.
- Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar Orchymyn Cyflogau Amaethyddol 2023.
- Diwygiadau cyfreithiol arfaethedig i Orchymyn Cyflogau Amaethyddol 2024.
- Y Lwfans Gwrthbwyso Llety yn y Gorchymyn.

## Cyfarfod Rhif 43 (4 a 5 Medi 2023)

https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-panel-cynghori-ar-amaethyddiaeth-5-medi-2023

### Diwrnod 1

Pynciau trafod:

- Cynnig sydd â'r nod o symleiddio'r Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol.
- Cyfraddau tâl arfaethedig a newidiadau i delerau ac amodau mewn perthynas â’r Gorchymyn Cyflogau drafft ar gyfer 2024.
- Canllaw ar Waith Teg Cyfarwyddiaeth Partneriaeth Gymdeithasol, Cyflogadwyedd a Gwaith Teg Llywodraeth Cymru.
- Diweddariad ar yr Adolygiad arfaethedig o’r Panel.

### Diwrnod 2

Pynciau trafod:

- Trafodaethau pellach ynghylch cyfraddau tâl arfaethedig a newidiadau i delerau ac amodau mewn perthynas â’r Gorchymyn Cyflogau drafft ar gyfer 2024.
- Papur ar yr Astudiaeth o Ddichonoldeb y Cyflog Byw Gwirioneddol.
- Cais am dystiolaeth ar Fisâu Gweithwyr Tymhorol gan y Pwyllgor Cynghori ar Fudo.
- Cyfnodau swydd ar gyfer aelodau cynrychiadol.

## Cyfarfod Rhif 44 (21 Tachwedd 2023)

https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-panel-cynghori-ar-amaethyddiaeth-21-tachwedd-2023

Pynciau trafod:

- Ymatebion i'r ymgynghoriad ar Orchymyn Cyflogau Amaethyddol 2024.
- Yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol 2024.
- Diweddariad ar y manylebau ar gyfer yr Adolygiad allanol ac annibynnol o’r Panel.
- Diweddariad ar y broses recriwtio ar gyfer aelod annibynnol newydd o fis Ebrill 2024.
- Diweddariad ar y cyfnodau swydd ar gyfer aelodau cynrychiadol.
- Y fersiwn derfynol o Adroddiad Blynyddol y Panel ar gyfer 2022/2023.
- Diweddariad ar yr Astudiaeth o Ddichonoldeb y Cyflog Byw Gwirioneddol.
- Ystyried diwygiadau posibl i'r darpariaethau goramser ar gyfer Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol 2025.
  Diweddariad ar y Cais am Dystiolaeth gan yr Is-bwyllgor Datblygu Sgiliau a Hyfforddiant.

## Cyfarfod Rhif 45 (23 Ionawr 2024)

https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-panel-cynghori-ar-amaethyddiaeth-23-ionawr-2024

Pynciau trafod:

- Diweddariad ar y cyfnodau swydd ar gyfer aelodau cynrychiadol.
- Diweddariad ar y broses recriwtio ar gyfer aelod annibynnol newydd o fis Ebrill 2024.
- Diweddariad a phapur drafft ar yr Astudiaeth o Ddichonoldeb y Cyflog Byw Gwirioneddol.
- Diweddariad ar Orchymyn Cyflogau Amaethyddol 2024.
- Ymgynghoriad ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.
- Dogfen ddrafft yn amlinellu diwygiadau arfaethedig i'r darpariaethau goramser ar gyfer y Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol ar gyfer 2025.
- Gweithio Hyblyg / Rhannu Swydd yn y sector amaethyddol.

## Cyfarfod Rhif 46 (5 Mawrth 2024)

https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-panel-cynghori-ar-amaethyddiaeth-5-mawrth-2024

Pynciau trafod:

- Ffurflen Datganiad Gwrthdaro Buddiannau i holl aelodau'r Panel ei llenwi.
- Mwy o gyhoeddusrwydd i'r Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol drwy Cyswllt Ffermio.
- Cynllun Gweithredu ynghylch llywodraethu'r Panel.
- Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig.
- Fersiwn wedi'i diweddaru o'r Adroddiad o Ddichonoldeb y Cyflog Byw Gwirioneddol.
- Dogfen ddiwygiedig sy'n ymdrin â chyfleoedd Gweithio Hyblyg a Rhannu Swydd yn y sector amaethyddol.
- Diwygiadau awgrymedig i dudalennau gwe'r Panel ar wefan Llywodraeth Cymru.
- Diweddariad ynghylch Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol 2024.
- Papur diwygiedig ar y newidiadau arfaethedig i'r darpariaethau goramser ar gyfer Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol 2025.
- Egwyddorion Rheoli Tir yn Gynaliadwy sy'n berthnasol i bob deddfwriaeth yng Nghymru, gan gynnwys y Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol.

## Dichonoldeb y Cyflog Byw Gwirioneddol i Weithwyr Amaethyddol yng Nghymru



Mae'r Panel wedi bod yn trafod ac yn gwerthuso dichonoldeb gweithredu Cyflog Byw Cymru ers cyhoeddi adroddiad Gwaith Teg Cymru yn 2019. Argymhellodd yr adroddiad y dylai'r Panel ymchwilio i ddichonoldeb talu Cyflog Byw Cymru (sy'n cyfateb i'r Cyflog Byw Gwirioneddol) ym maes amaethyddiaeth yng Nghymru, a hynny dros gyfnod treigl o dair blynedd.

Mae'r Panel wedi bod wrthi'n ystyried y mater ac yn archwilio dulliau amrywiol i asesu'n briodol y cyfleoedd, y risgiau a'r effeithiau posibl. Mae hyn yn cynnwys ffocws ar gasglu data newydd a chyfredol i lywio gwir asesiad o effaith economaidd dull o'r fath.

Yn 2023, rhoddodd y Panel sawl diweddariad i'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, yn rhoi sylw i'r materion data parhaus sydd wedi'u codi droeon. Yr heriau sy'n gysylltiedig â dulliau casglu data sylfaenol fu'r prif rwystr i fwrw rhagddi â'r astudiaeth ddichonoldeb pan ddechreuodd y Panel drafod ac ystyried y mater hwn. Yn anffodus, er gwaethaf ymdrechion y Panel a swyddogion Llywodraeth Cymru i oresgyn y materion data hyn, dyma'r prif rwystr o hyd i allu ymgymryd â'r gwaith hwn yn gynhwysfawr.

Yn dilyn trafod cynllun gweithredu yn y Panel, cyflwynodd swyddogion dri opsiwn i'r Gweinidog ym mis Tachwedd 2023 i fynd i'r afael â'r materion sy'n ymwneud â data. Yr opsiynau hyn oedd:

- Parhau gydag astudiaeth ddichonoldeb wedi'i chaffael yn allanol.
- Mabwysiadu cynllun gweithredu arfaethedig y Panel a allai alluogi'r Panel i gynnal astudiaeth ddichonoldeb mewn perthynas â'r Cyflog Byw Gwirioneddol.
- Cydnabod a derbyn y risgiau sy'n gysylltiedig â data Cyflogau Amaethyddol a datblygu dull ansoddol mewn perthynas â'r Cyflog Byw Gwirioneddol gan gydnabod yr hyder isel a fynegwyd gan economegwyr ac ystadegwyr Llywodraeth Cymru ynghylch datrys yr heriau data o fewn cyllidebau presennol a phryderon ynghylch y gwerth y byddai unrhyw ddata newydd yn ei ychwanegu at astudiaeth ddichonoldeb.

O ystyried yr hyder isel yn y tebygolrwydd o ddatrys materion data a'r pwysau sylweddol ar gyllidebau Llywodraeth Cymru, penderfynodd y Gweinidog hepgor yr angen am asesiad dichonoldeb meintiol, gan dderbyn barn ansoddol gan y Panel yn lle hynny.

Cyflwynwyd adroddiad i'r Gweinidog ym mis Mawrth 2024.

## Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2024



https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2024/390/made/welsh

Cafodd Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2024 ei gwblhau yn ystod blwyddyn ariannol 2023/2024 a bydd yn dod i rym ar 1 Ebrill 2024.

Disodlodd Orchymyn Cyflogau Amaethyddol 2023 a chyflwynodd y newidiadau canlynol:

- Cyfraddau isafswm cyflog uwch ar draws pob gradd (sy'n gysylltiedig â chynnydd yn yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol a'r Cyflog Byw Cenedlaethol a gyhoeddwyd yn Natganiad Hydref Llywodraeth y DU ar 22 Tachwedd 2023).
- O fis Ebrill 2024, cafodd y Cyflog Byw Cenedlaethol ei ymestyn i bobl ifanc 21 a 22 oed. Mae'r bandiau oedran a nodir yn y Gorchymyn wedi'u diwygio, ac mae'r band oedran ar gyfer y rhai 23 oed a hŷn wedi cael ei ddileu.
- Mae'r holl lwfansau wedi cynyddu 8.5%.
- Bydd cyfraddau taliadau goramser bellach yn cael eu cyfrifo yn seiliedig ar gyfraddau fesul awr gwirioneddol y gweithiwr amaethyddol, yn hytrach na'r gyfradd fesul awr isaf a ragnodir yn y Gorchymyn.

Bydd y cyfraddau tâl a lwfansau statudol a bennir gan y Gorchymyn yn aros mewn grym nes i Orchymyn Cyflogau Amaethyddol newydd gael ei sefydlu (neu hyd nes y cânt eu disodli gan newidiadau i'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol/Cyflog Byw Cenedlaethol).

Cafodd y "Canllawiau i Weithwyr a Chyflogwyr" wedi'u diweddaru eu darparu ar-lein ac ar ffurf brintiedig.

Mae dogfen annibynnol ychwanegol sy'n ymdrin â gweithio hyblyg a rhannu swydd yn y sector amaethyddol wedi'i chyhoeddi mewn ymateb i'r rheoliadau gweithio hyblyg newydd a ddaeth i rym ar 6 Ebrill 2024. Bydd y ddogfen hon yn cael ei hintegreiddio yn y brif ddogfen ganllawiau yn 2025.

Mae'r dogfennau canllawiau ar gael yn: https://www.llyw.cymru/cyflogau-amaethyddol-canllawiau

## Gorfodi Gorchmynion Cyflogau Amaethyddol

Llywodraeth Cymru sy'n gorfodi cyfraddau tâl isaf a thâl gwyliau.

Swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n ymdrin ag ymholiadau a chwynion gan gyflogwyr a gweithwyr.

Gellir rhoi gwybod am achosion posibl o ddiffyg cydymffurfiaeth yn y ffyrdd canlynol:

Llinell gymorth: 0300 060 4400

E-bost: SLMenquiries@llyw.cymru

Post: Tîm Isafswm Cyflog Amaethyddol
Swyddfa Llywodraeth Cymru,
Neuadd y Sir,
Spa Road East,
Llandrindod,
Powys, LD1 5HA

Mae pob cwyn yn cael ei thrin yn gyfrinachol.

## Yr Is-bwyllgor Datblygu Sgiliau a Hyfforddiant



Mae cylch gwaith y Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru yn cynnwys hyrwyddo gyrfaoedd mewn amaethyddiaeth, garddwriaeth a choedwigaeth a datblygu gweithlu â sgiliau priodol.

Mae Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd statudol ar y Panel i sefydlu Is-bwyllgor Datblygu Sgiliau a Hyfforddiant parhaol. Rhaid i hyn gynnwys cynrychiolwyr o Lantra a Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru. Mae cynrychiolwyr undebau, academyddion ac arbenigwyr o bob rhan o'r diwydiant yn ymuno â nhw, ac mae ganddynt brofiad, gwybodaeth a dealltwriaeth eang o'r anghenion sgiliau a hyfforddiant ar gyfer y sector amaethyddiaeth, yn ogystal â'r gofynion ar gyfer cyfleoedd i gamu ymlaen yn eich gyrfa.

Mae Cylch Gorchwyl Is-bwyllgor Datblygu Sgiliau a Hyfforddiant y Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth ar gael yn: https://www.llyw.cymru/y-panel-cynghori-ar-amaethyddiaeth/cylch-gorchwyl-bwyllgor

Cyfarfu'r is-bwyllgor ddwywaith yn ystod y cyfnod adrodd hwn i adeiladu ar ganlyniadau'r Digwyddiad Ymwybyddiaeth Strategol a gynhaliwyd ym mis Hydref 2022. Trafodwyd y camau nesaf tuag at ddatblygu strategaeth ar gyfer sgiliau, hyfforddiant a datblygu ar gyfer y diwydiant amaeth yng Nghymru.

Cytunodd yr is-bwyllgor y byddai "Cais am Dystiolaeth ac Arbenigedd ar Ddarparu Addysg Gyrfaoedd, Sgiliau, Hyfforddiant a Datblygu i Weithwyr Amaethyddol, Garddwriaethol a Choedwigaeth yng Nghymru" yn cael ei gychwyn fel cam cychwynnol. Yn ogystal, cytunwyd y byddai Cynhadledd Sgiliau a Datblygiad Proffesiynol Parhaus Lantra, a drefnwyd ar gyfer 19 Hydref 2023 ar faes y Sioe Fawr, yn lleoliad priodol ar gyfer lansiad swyddogol y fenter hon.

Arweiniodd adborth o'r digwyddiad at rai diwygiadau i'r Cais am Dystiolaeth drafft. Cyhoeddwyd y ddogfen wedi'i diweddaru ar dudalen we'r Panel ar wefan Llywodraeth Cymru ar 10 Ionawr a bydd yn parhau ar agor ar gyfer ymatebion am 12 wythnos, gan gau ar 2 Ebrill 2024.

Mae manylion y Cais am Dystiolaeth ar gael yn: https://www.llyw.cymru/panel-cynghori-ar-amaethyddiaeth-cymru-bwyllgor-ar-sgiliau-hyfforddiant-datblygiad-html

Mae aelodaeth yr is-bwyllgor am y cyfnod a drafodir yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

| Enw | Swydd / Cynrychiolydd |
|---|---|
| Dr Nerys Llewelyn Jones | Cadeirydd Annibynnol |
| Janatha Stout | Aelod Annibynnol (Addysg) |
| Stephen Hughson | Aelod Annibynnol (Amaethyddiaeth) |
| Joanne Galazka | Undeb Unite |
| Ivan Monckton | Undeb Unite |
| Alex Higgs | Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru (NFU Cymru) |
| Alun Elidyr Edwards | Undeb Amaethwyr Cymru (FUW) |
| Kevin Thomas | Lantra |
| Mared Jones | CFfI Cymru |
| Vanessa Cashmore | Colegau Cymru |
| Louis Dare | Colegau Cymru |
| Laura Griffiths | Llywodraeth Cymru (Cyswllt Ffermio) |

# Atodiad 1

## Dolenni i Ddeddfwriaeth

### Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014
https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/6/welsh

Mae Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 yn gwneud darpariaethau ar gyfer:

- sefydlu Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru.
- gwneud gorchmynion sy'n nodi'r telerau ac amodau ar gyfer pobl sy'n cael eu cyflogi mewn amaethyddiaeth yng Nghymru (gweithwyr amaethyddol).
- gorfodi'r telerau a'r amodau hynny.

### Gorchymyn Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru (Sefydlu) 2016
https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2016/255/made/welsh

Mae Gorchymyn Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru (Sefydlu) 2016 yn sefydlu'r Panel fel corff cynghori annibynnol i Weinidogion Cymru.  Swyddogaethau'r Panel yw hybu gyrfaoedd mewn amaethyddiaeth, paratoi gorchmynion cyflogau amaethyddol ar ffurf ddrafft, ymgynghori ar orchmynion o'r fath i'w cyflwyno i Weinidogion Cymru a chynghori Gweinidogion Cymru ar faterion sy'n ymwneud â'r sector amaethyddol yng Nghymru.

### Gorchymyn Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 (Parhau i Gael Effaith) 2018
https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2018/515/made/welsh

Effaith adran 14(1) o Ddeddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 ("y Ddeddf") yw y byddai'r Ddeddf yn dod i ben ar 30 Gorffennaf 2018, oni bai bod gorchymyn yn cael ei wneud gan Weinidogion Cymru o dan adran 14(2) yn darparu bod y Ddeddf i barhau i gael effaith. Mae'r Gorchymyn hwn yn orchymyn o'r fath ac yn darparu bod y Ddeddf yn parhau i gael effaith.